

Trawsgrifiad

00:00:00 Siaradwr 1

Dyma recordiad a wnaed gan Amy Burchmore ar 23 Medi 2025 yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

00:00:08 Siaradwr 1

Mae'r cyfweiliad hwn yn rhan o brosiect Natur am Byth, Dysgu o Gewri, sy'n ceisio cofnodi straeon a phrofiadau'r rhai sydd wedi ymroi eu bywydau i gadwraeth byd natur yng Nghymru.

00:00:18 Siaradwr 1

Heddiw byddaf yn cyfweld â Phennaeth Gwarchodfeydd Natur Daearol Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Lizzie Wilberforce.

00:00:25 Siaradwr 1

Lizzie, mae eich gyrfa yn adlewyrchu ymrwymiad gydol oes i gadwraeth byd natur yng Nghymru, ac felly hoffwn ddechrau trwy siarad am eich rôl bresennol fel Pennaeth Gwarchodfeydd Natur Daearol yn Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru.

00:00:39 Siaradwr 1

A allech chi ddweud ychydig wrthyf am beth yw natur eich rôl?

00:00:43 Siaradwr 2

Wrth gwrs, rydw i'n gymharol newydd i'r rôl hon fel rhan o fy ngyrfa, ond mae'n adeiladu ar y ffaith fy mod i wedi treulio llawer o fy ngyrfa ym maes rheoli tir mewn gwahanol ffurfiau.

00:00:53 Siaradwr 2

Ac mae'n swydd rydw i'n teimlo'n freintiedig iawn i'w chael oherwydd rydw i'n credu bod cymaint o gyfle i wneud gwahaniaeth gweladwy ym maes rheoli tir, weithiau dros y tymor byr iawn.

00:01:03 Siaradwr 2

Mae gan Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru dros 100 o warchodfeydd natur ar y tir mawr, sy'n ymestyn o Gaerdydd yn y dwyrain ac i fyny i Aberhonddu ac yna ar draws i ardal Aberystwyth yn y gorllewin.

00:01:14 Siaradwr 2

Felly mae'r ardal honno yn cyfrif am bron i hanner Cymru gyda'r nifer fawr honno o safleoedd wedi'u gwasgaru ar ei thraws.

00:01:19 Siaradwr 2

Cymaint o wahanol fathau o safleoedd, tirwedd mor amrywiol.

00:01:23 Siaradwr 2

Cymaint o gymunedau gwahanol, gwahanol fathau o gymunedau ar eu stepen drws.

00:01:26 Siaradwr 2

Ac mae gennym ni dîm gwych sydd â llwyth o sgiliau gwahanol, popeth o beiriannau trwm i ymgysylltu â phobl.

00:01:33 Siaradwr 2

Felly fi sy'n cael arwain hynny i gyd, mae'n debyg.

00:01:37 Siaradwr 2

Rydw i'n treulio cryn dipyn o amser yn gwneud pethau fel ceisiadau am grantiau a chodi arian a phethau fel 'na.

00:01:43 Siaradwr 2

Ond rydw i'n dal i gael mynd allan i'r awyr agored a gwneud gwaith monitro botanegol a meddwl am gynllunio rheoli a'r math o gyfeiriad strategol ar gyfer ein tir, sy'n ...

00:01:52 Siaradwr 2

Mae'n llawn hwyl, does dim dau ddiwrnod yr un fath.

00:01:55 Siaradwr 2

Ac rydw i'n credu mai dyma'r math o swydd rydych chi'n ffodus iawn i'w chael pan rydych chi'n edrych ymlaen at fynd i'r gwaith yn y bore.

00:02:00 Siaradwr 2

Hynny yw, faint o bobl all ddweud hynny?

00:02:03 Siaradwr 1

Ie, mae hynny'n beth hyfryd i allu ei ddweud.

00:02:05 Siaradwr 1

Ac nid dyma eich rôl gyntaf gyda'r ymddiriedolaeth.

00:02:07 Siaradwr 1

Beth oedd y rolau blaenorol oedd gennych?

00:02:11 Siaradwr 2

Ie, rydw i wedi cael cryn dipyn o rolau gwahanol.

00:02:12 Siaradwr 2

Felly rhoddodd yr ymddiriedolaeth, yr Ymddiriedolaeth Natur, fy nghyfle gyrfa cyntaf i mi o ran cyflogaeth am dâl ac roedd hynny'n waith tymhorol ar Ynys Skomer yn Sir Benfro.

00:02:21 Siaradwr 2

Yn gwneud gwaith ym maes adar môr.

00:02:23 Siaradwr 2

Felly fe wnes i dymor o hynny ac yna dechreuais yng Ngheredigion fel rheolwr gwarchodfeydd natur yng Ngheredigion, lle'r oedd gen i tua 20 o warchodfeydd natur roeddwn i'n eu rheoli'n uniongyrchol.

00:02:35 Siaradwr 2

Ac yna fe esblygodd dros yr amser hwnnw.

00:02:37 Siaradwr 2

Fe wnes i ddechrau gwneud yr hyn a alwom ar y pryd yn waith cefn gwlad ehangach, felly gwaith cadwraeth yn y sir oedd y tu allan i warchodfeydd natur.

00:02:45 Siaradwr 2

Yna symudais i Sir Gaerfyrddin yn 2008, a dechreuais fod yn gyfrifol am Sir Gaerfyrddin yn lle hynny cyn i mi ddod yn aelod o'r tîm uwch-reolwyr.

00:02:51 Siaradwr 2

Felly rydw i hefyd wedi bod yn rheolwr cadwraeth ar gyfer y gorllewin.

00:02:54 Siaradwr 2

Yna gadewais yr ymddiriedolaeth am gyfnod ac rydw i wedi dod yn ôl yn y rôl hon fel Pennaeth Gwarchodfeydd Natur Daearol.

00:02:58 Siaradwr 2

Felly, ie, rydw i wedi bod yn ffodus i weld fy ngwaith yn esblygu a dyna un o'r pethau rydych chi'n eu dysgu trwy wneud, ac rydych chi'n dysgu'r holl sgiliau newydd hyn gyda phob cam esblygu.

00:03:08 Siaradwr 2

Mae wedi bod yn wych.

00:03:09 Siaradwr 1

A beth sydd am yr ymddiriedolaeth sy'n eich cadw chi'n dod yn ôl?

00:03:13 Siaradwr 2

Mae'n lle neis iawn i weithio.

00:03:15 Siaradwr 2

Rydw i'n meddwl mai un o'r pethau rydw i wedi'u caru erioed am yr Ymddiriedolaeth Natur ac roeddwn i ...

00:03:19 Siaradwr 2

roeddwn i'n arfer gwirfoddoli i'm hymddiriedolaeth natur leol wrth dyfu i fyny ym Mryste, sef Ymddiriedolaeth Natur Avon.

00:03:24 Siaradwr 2

Rydw i'n meddwl fy mod i bob amser wedi cael fy nenu at y ymddiriedolaeth fel mudiad oherwydd ei bod yn edrych ar bopeth.

00:03:28 Siaradwr 2

Nid yw'n benodol i un tacson, ac mae angen y gwaith hwnnw hefyd.

00:03:32 Siaradwr 2

Ond i mi yn bersonol, yn fy ffordd o weithio, dydw i ddim yn arbenigwr.

00:03:35 Siaradwr 2

Rydw i'n hoffi adar, rydw i'n hoffi planhigion, rydw i'n dal gwyfynod.

00:03:40 Siaradwr 2

Felly, mae elusen sy'n edrych ar sbectrwm cyfan bywyd gwyllt yn apelio ataf yn naturiol.

00:03:47 Siaradwr 2

Ac fel gwirfoddolwr, rydw i wedi gwneud cryn dipyn o waith rheoli tir felly rydw i'n meddwl mai'r ehangder hwnnw ydyw, ac mae'r elusen yn ymatebol iawn fel sefydliad, mae'n eithaf cyflym felly mae'n ymateb i gyfleoedd yn gyflym, sy'n golygu fel aelod o staff rydych chi'n cael bod yn greadigol a dod â rhai o'ch syniadau eich hun, a gallwch chi ddylanwadu ychydig ar gyfeiriad y daith os oes gennych chi weledigaeth glir o sut y gallai rhywbeth fod.

00:04:06 Siaradwr 2

Felly rydw i'n meddwl ei bod, rydw i'n hoffi'r hyn mae'n ei wneud ac mae'n gyflogwr da yn hynny o beth hefyd.

00:04:11 Siaradwr 1

Ac nid dyna yw eich unig rôl ar hyn o bryd.

00:04:13 Siaradwr 1

Beth arall ydych chi'n ei wneud?

00:04:15 Siaradwr 2

Na, mae hynny'n iawn.

00:04:16 Siaradwr 2

Felly, er fy mod i wedi gweithio gyda nhw'n llawn amser o'r blaen, pan adawais yr Ymddiriedolaeth Natur yn 2020, cefais seibiant bach.

00:04:25 Siaradwr 2

Ac yna dechreuais weithio ddau ddiwrnod yr wythnos i elusen Gymreig, elusen Gymreig fach o'r enw Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru, yr ydym yn ei galw'n INCC, INCC yn fyr.

00:04:34 Siaradwr 2

Felly rydw i'n gweithio i INCC ddau ddiwrnod yr wythnos yn cynhyrchu cylchgrawn o'r enw *Natur Cymru*.

00:04:39 Siaradwr 2

Felly INCC sy'n cyhoeddi'r cylchgrawn, ond mae gan y cylchgrawn gynnwys gan unrhyw un a phawb am waith cadwraeth yng Nghymru.

00:04:46 Siaradwr 2

Mae'n ddi-bleidiol i raddau yn hynny o beth.

00:04:48 Siaradwr 2

Felly rydw i'n wrth fy modd yn gwneud hynny ac rydw i'n dal i wneud hynny ddau ddiwrnod yr wythnos.

00:04:52 Siaradwr 2

Felly pan ymunais â'r ymddiriedolaeth eto, ymunais am dridiau'r wythnos.

00:04:54 Siaradwr 2

Felly rydw i'n rhannu fy amser rhwng y ddwy elusen a'r ddwy rôl nawr.

00:04:58 Siaradwr 2

Ie, sy'n heriol ar adegau.

00:05:00 Siaradwr 1

Rydych chi'n hoffi cadw'n brysur.

00:05:01 Siaradwr 2

Ie, yn hollol.

00:05:02 Siaradwr 1

Ie.

00:05:04 Siaradwr 1

Ac rydych chi wedi gweithio i'r ymddiriedolaeth am y rhan fwyaf o'ch gyrfa?

00:05:08 Siaradwr 1

Rhwng eich rolau gyda'r ymddiriedolaeth, ble arall ydych chi wedi gweithio?

00:05:12 Siaradwr 2

Ydw, felly yn y bwlch hwnnw, roeddwn i i ffwrdd pum mlynedd neu fwy.

00:05:16 Siaradwr 2

Fi oedd yn gwneud y rôl INCC gyda'r cylchgrawn, ond roeddwn i hefyd yn gweithio i Plantlife.

00:05:19 Siaradwr 2

Fi oedd arweinydd Plantlife Cymru, felly roedd gen i ryw fath o oruchwyliaeth o'u gwaith yng Nghymru am y cyfnod pum mlynedd hwnnw.

00:05:28 Siaradwr 2

Ac, wyddoch chi, mae bob amser yn werthfawr gweld y ffordd y mae gwahanol sefydliadau'n gweithio, a gwahanol ffyrdd o weithio, ac yn amlwg cwrddais i â phobl newydd a chefais gyfle

00:05:38 Siaradwr 2

i archwilio rhai materion oedd o ddiddordeb mawr i mi o amgylch maes cadwraeth fotanegol mewn mwy o ddyfnder a chael safbwynt gwahanol ar reoli tir hefyd.

00:05:45 Siaradwr 2

Felly, ie, roedd yn wych gweithio i Plantlife, ond dyna oedd fy mhrif seibiant o'r ymddiriedolaeth, sef y pum mlynedd hynny yn Plantlife.

00:05:52 Siaradwr 1

Ac rydych chi wedi ymroi eich gyrfa i gadwraeth byd natur.

00:05:55 Siaradwr 1

Pryd daeth y diddordeb hwn mewn cadwraeth byd natur yn amlwg?

00:05:59 Siaradwr 2

Yn ifanc, ond, yn wahanol i rai pobl, alla i ddim rhoi fy mys ar un foment mewn amser a dweud mai dyna oedd y peth, mai dyna oedd y foment.

00:06:08 Siaradwr 2

Ond roeddwn i'n bendant yn yr ysgol gynradd.

00:06:10 Siaradwr 2

Ac rydw i'n credu, oherwydd bod llawer o'r diddordeb wedi dod o fy nheulu, roedd yno yn y cefndir bob amser.

00:06:18 Siaradwr 2

Felly mae'r teulu cyfan yn cydymdeimlo â bywyd gwyllt i ryw raddau.

00:06:21 Siaradwr 2

Ond rydw i'n meddwl, ie, dechreuais i gael llawer mwy o ddiddordeb yn hwy yn yr ysgol gynradd, pan ddechreuais i.

00:06:28 Siaradwr 2

Ie, mae'n oedran lle mae plant yn dechrau mynd yn obsesiynol am bethau.

00:06:30 Siaradwr 1

Ie.

00:06:31 Siaradwr 2

A dyna oedd fy obsesiwn i.

00:06:32 Siaradwr 1

Felly'n gynnwys iawn felly.

00:06:34 Siaradwr 1

A

00:06:35 Siaradwr 1

sut wnaethoch chi weithredu ar y diddordeb hwn fel plentyn?

00:06:39 Siaradwr 1

Rydw i'n gwybod eich bod chi wedi dweud eich bod chi wedi tyfu i fyny ym Mryste ac wedi gwirfoddoli i Ymddiriedolaeth Natur Avon.

00:06:43 Siaradwr 1

Ai dyna oedd eich ffordd gyntaf o weithredu ar yr angerdd hwnnw dros gadwraeth?

00:06:48 Siaradwr 2

O ran gwneud gwahaniaeth mewn gwirionedd, mae'n debyg mai dyna oedd, ie.

00:06:52 Siaradwr 2

Hynny yw, rydw i'n meddwl, cyn i mi adael yr ysgol gynradd, un o'r pethau oedd, felly roedd fy mam yn ffactor mawr yn hyn.

00:06:58 Siaradwr 2

Mae hi wedi bod â diddordeb mewn bywyd gwyllt erioed.

00:07:00 Siaradwr 2

Ac rydw i'n credu, pan oeddwn i yn yr ysgol gynradd, sylwais hi nad oedden ni'n cael ein dysgu dim am fywyd gwyllt.

00:07:05 Siaradwr 2

Mae hynny wedi gwella llawer nawr yng Nghymru, yn sicr ar y cwricwlwm, ond doedden ni ddim yn cael ein dysgu dim byd.

00:07:10 Siaradwr 2

Ac roedd hynny mor wahanol i'w phrofiad hi yn yr ysgol gynradd.

00:07:12 Siaradwr 2

Felly rhoddodd lyfr planhigion bach i mi a dechreuais dynnu lluniau o blanhigion y des i o hyd iddyn nhw ac ysgrifennu pethau.

00:07:18 Siaradwr 2

Roedd gen i fath o ddyddiadur botanegol.

00:07:20 Siaradwr 2

Felly mae hynny'n debyg i fod wedi dechrau pan oeddwn i'n 9 oed, 8 neu 9 oed, rhywbeth fel 'na.

00:07:26 Siaradwr 2

Ac rydw i'n meddwl, ar ôl hynny, dechreuais i godi arian hefyd, oherwydd pan fyddwch chi yn yr ysgol gynradd rydych chi bob amser yn gwneud rhediadau wedi'u noddi a'r math yna o beth.

00:07:33 Siaradwr 2

Meddyliais i, wel, rydw i'n mynd i wneud fy un i er budd bywyd gwyllt.

00:07:36 Siaradwr 2

Ac yna roeddwn i'n gallu gwirfoddoli pan oeddwn i'n 14 oed gydag Ymddiriedolaeth Natur Avon, rhywbeth na allwch chi ei wneud nawr oherwydd diogelu ac iechyd a diogelwch am reswm da iawn.

00:07:48 Siaradwr 2

Ond mae hefyd braidd yn druenus oherwydd ei fod yn hynod ddylanwadol

00:07:52 Siaradwr 2

i mi, yn 14 oed, i allu fynd allan gydag Ymddiriedolaeth Natur Avon ar ddydd Sul gyda'u holl wirfoddolwyr sy'n oedolion a chael fy nhrin fel oedolyn, cael llif bwa, a mynd i wneud rhywbeth a oedd yn teimlo'n gynhyrchiol, a theimlo fel oedolyn.

00:08:05 Siaradwr 2

Ac yna rydych chi'n meddwl, gallwn i wneud hyn am fywoliaeth.

00:08:08 Siaradwr 2

Felly dw i'n meddwl, mae'n debyg, pan oeddwn i tua 14 oed a dechrau gwneud hynny, dyna'r tro cyntaf iddo drawsnewid o fod yn ddiddordeb, a mynd o gofnodi, tynnu lluniau, a

00:08:19 Siaradwr 2

dysgu adnabod pethau i wneud rhywbeth amdano mewn gwirionedd, gwneud rhywbeth gyda'r wybodaeth.

00:08:24 Siaradwr 2

Ie, ond roeddwn i'n lwcus fy mod i'n gallu ei wneud yn 14 oed, ar fy mhen fy hun.

00:08:27 Siaradwr 2

Dyna, ie, rydw i'n ddiolchgar am hynny.

00:08:30 Siaradwr 1

Felly gwnaethoch chi sôn am yr ysgol, doedd dim llawer o opsiwn i dreulio amser ym myd natur.

00:08:36 Siaradwr 2

Na, ddim mewn gwirionedd.

00:08:38 Siaradwr 2

Wel, alla i ddim meddwl am wneud unrhyw beth fel 'na yn yr ysgol gynradd.

00:08:41 Siaradwr 2

Ac roeddwn i mewn ysgol gynradd Fictoraidd glasurol yn y ddinas

00:08:44 Siaradwr 2

lle'r oedd y maes chwarae yn llythrennol yn sgwâr o darmac, lle'r oedd y plant, a bechgyn fel arfer mae'n ddrwg gen i, yn cicio peli tenis yn erbyn y waliau a oedd wedyn yn adlamu i'ch pen – a phethau fel hynny.

00:08:56 Siaradwr 2

Rydw i'n cofio bod darn bach o laswellt o amgylch cefn yr hen ysgoldy brics coch nad oedden ni'n cael mynd arno oherwydd bydden ni'n gwneud llanast, chi'n gwybod, cadwch y plant oddi ar y glaswellt.

00:09:07 Siaradwr 2

Ond roedd ganddyn nhw rai, roeddwn i'n arfer casglu'r egroes oedd yn cwympto allan ohono, ac roedd gennym ni rai coed pinwydd mawr

00:09:13 Siaradwr 2

ar ochr arall y wal uchel iawn ac roeddwn i'n arfer casglu'r rheini ac roeddwn i'n arfer creu pethau.

00:09:17 Siaradwr 2

Felly mae'n debyg fy mod i'n gwneud y gorau o'r hyn oedd gen i.

00:09:18 Siaradwr 2

Ond nid oedd yr ysgol yn amgylchedd llawn bywyd gwyllt, na, yn anffodus.

00:09:23 Siaradwr 1

Felly aethoch chi allan i wirfoddoli a cheisio bod ym myd natur y tu allan i'r ysgol.

00:09:28 Siaradwr 1

Ac yna a wnaethoch chi wirfoddoli hyd nes i chi symud i ffwrdd i fynd i'r brifysgol?

00:09:33 Siaradwr 2

Do, fwy neu lai.

00:09:34 Siaradwr 2

Felly rydw i'n meddwl fy mod i wedi gweithio i Ymddiriedolaeth Natur Avon am ddwy neu dair blynedd ac,

00:09:39 Siaradwr 2

ar ôl blwyddyn neu ddwy, fe wnaethon nhw adael i mi gyd-arwain y criwiau gwaith, a oedd yn anhygoel.

00:09:44 Siaradwr 2

Hynny yw, allwn i ddim gyrru'r bws mini na dim byd fel 'na, ond yn 15 neu 16 oed, roedden nhw'n gadael i mi gynnal sgysiau ynghylch bod yn ddiogel wrth ddefnyddio offer a phethau, ac nad oedd gen i unrhyw syniad ar y pryd pa mor dda oedd y profiad gyrfa hwnnw a pha mor anarferol oedd hynny.

00:09:54 Siaradwr 2

Felly roeddwn i'n lwcus iawn bod ganddyn nhw'r lefel honno o ffydd ynof i fod yn rhywfaint o synhwyrol ar yr oedran hwnnw.

00:10:02 Siaradwr 2

Ac rydw i'n credu wedyn i mi roi'r gorau i wneud hynny tra oeddwn i'n gwneud fy Safonau Uwch oherwydd fy mod i wedi cael yr awydd i wneud y gwaith o roi bandiau ar adar trwy wneud gwaith gwirfoddoli ar Ynys Skomer.

00:10:08 Siaradwr 2

Felly gwnes i waith gwirfoddoli preswyl ar Ynys Skomer ac roedd hynny gydag Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru.

00:10:13 Siaradwr 2

Er fy mod i'n dal i fyw ym Mryste, roeddwn i'n gwneud y gwaith gwirfoddoli preswyl hwnnw rhwng 16 a 18 oed ac roeddwn i wedi gweld pobl yn rhoi bandiau ar adar.

00:10:19 Siaradwr 2

Felly dechreuais roi bandiau ar adar ar ddyddiau Sul yn lle hynny ym Mryste.

00:10:23 Siaradwr 2

Felly, ie, dim ond cyfle arall lwcus iawn, bod un cyfle yn arwain at un arall neu syniad arall ac rydych chi'n adeiladu eich rhwydwaith ac

00:10:31 Siaradwr 2

felly parheais i wneud hynny nes i mi fynd i'r brifysgol.

00:10:33 Siaradwr 2

Wnes i ddim gwneud cymaint o wirfoddoli pan oeddwn i yn y brifysgol oherwydd fy mod i ychydig yn fwy cymdeithasol nag yr ydw i wedi bod ar adegau eraill yn fy mywyd.

00:10:39 Siaradwr 2

Efallai treulio fy amser yn gwneud hynny ychydig yn fwy.

00:10:42 Siaradwr 2

Ond, ie, mae gwirfoddoli wedi bod yn rhan fawr o fy mywyd erioed, yn sicr.

00:10:45 Siaradwr 1

Ie, mae'n swnio fel eich bod chi wedi cael llawer o brofiad o hynny yn ifanc iawn, efallai mwy felly na'r rhan fwyaf o bobl eraill ym myd cadwraeth.

00:10:54 Siaradwr 1

Felly aethoch chi i'r brifysgol a beth wnaethoch chi ei astudio yn y brifysgol?

00:10:58 Siaradwr 2

Ie, fe wnes i radd israddedig mewn bioleg amgylcheddol ac yna doethuriaeth mewn mycoleg ac ecoleg, y ddau ym Mhrifysgol Aberystwyth.

00:11:07 Siaradwr 2

Felly chwech, chwe blynedd a hanner ym Mhrifysgol Aberystwyth.

00:11:12 Siaradwr 2

Ie, roedd bioleg amgylcheddol yn gwrs da i mi.

00:11:16 Siaradwr 2

Dewisais i hynny'n fwriadol.

00:11:17 Siaradwr 2

Roeddwn i'n gwybod fy mod i eisiau mynd i Aberystwyth.

00:11:20 Siaradwr 2

Roedd fy mam wedi tyfu i fyny yng ngorllewin Cymru, felly roedd hi bob amser yn arfer dod â ni i Gymru ar wyliau.

00:11:24 Siaradwr 2

A dyna'r peth gyda phlant yn aml, ond yw e?

00:11:25 Siaradwr 2

Os ydych chi'n tyfu i fyny yng nghefn gwlad, rydych chi eisiau mynd i'r ddinas.

00:11:27 Siaradwr 2

Cefais fy magu yn y ddinas ac roeddwn i eisiau mynd i gefn gwlad.

00:11:30 Siaradwr 2

Felly meddyliais i, wel, rydw i'n adnabod gorllewin Cymru, rydw i wrth fy modd gyda'r ardal, af i'r gorllewin.

00:11:32 Siaradwr 2

Roeddwn i wir eisiau mynd i Aberystwyth.

00:11:34 Siaradwr 2

Edrychais ar y gwyddorau biolegol a dewisais y cwrs oedd â'r llun braf, sef llun o amanita'r gwybed.

00:11:39 Siaradwr 2

Ac, ie, wnaeth e ddim gofyn am gemeg, er bod gen i Safon Uwch mewn cemeg, oherwydd roedd hynny'n dweud wrtha i fod y cwrs yn fwy ymarferol, sef yr hyn roeddwn i'n chwilio amdano.

00:11:47 Siaradwr 2

Felly ...

00:11:49 Siaradwr 2

Felly dyna fi, ychydig yn dlawd, yn 18 oed, yn dewis fy nghwrs.

00:11:54 Siaradwr 1

Felly roeddech chi'n gwybod i ba brifysgol roeddech chi eisiau mynd iddi cyn i chi hyd yn oed weld y cyrsiau.

00:11:58 Siaradwr 1

Dyna efallai'r ffordd arall i'r ffordd y mae rhai pobl yn ei wneud.

00:12:02 Siaradwr 1

Ond, ie, mae'n braf iawn eich bod chi'n gwybod mai Aberystwyth oedd y lle roeddech chi eisiau mynd iddo ac yna gallech chi wneud eich penderfyniad wedi hynny.

00:12:09 Siaradwr 1

Efallai y bydd yn cyfyngu ar eich penderfyniad.

00:12:11 Siaradwr 2

Ie, rydw i'n meddwl ei fod wedi ei gwneud hi'n haws, mewn gwirionedd.

00:12:13 Siaradwr 2

Hynny yw, fe wnes i wneud cais i brifysgolion eraill hefyd, ond Prifysgol Aberystwyth ...

00:12:17 Siaradwr 2

Mae'n debyg mai dyma oedd un o'r prifysgolion y dewisais oedd â'r trothwy isaf o ran mynediad, ond dyma oedd fy newis cyntaf oherwydd mae lle rydw i yn bwysig iawn i mi.

00:12:24 Siaradwr 2

Y gallu i fynd allan i gefn gwlad, yn enwedig os nad ydych chi'n gyrru ac nad oes gennych chi gar, mae cael cefn gwlad ar garreg eich drws yn bwysig i mi.

00:12:31 Siaradwr 2

Felly, ie, rydw i'n meddwl fy mod i wedi bod yn eithaf lwcus yn fy mywyd fy mod i wedi gwybod beth roeddwn i eisiau ei wneud, ac roedd hyn yn gwneud rhai dewisiadau bywyd anodd yn haws.

00:12:39 Siaradwr 2

Roedd gan rai o fy nghydweithwyr lawer o drafferth, roedd gan gydweithwyr neu gyfoedion ar y pryd drafferth dewis, ond roeddwn i'n eithaf penderfynol ar yr hyn roeddwn i eisiau ei wneud.

00:12:46 Siaradwr 1

Mae hynny'n ddefnyddiol iawn.

00:12:47 Siaradwr 1

Ac a oedd yna faes penodol o fioleg neu'r amgylchedd yr oeddech chi'n ymddiddori ynddo?

00:12:54 Siaradwr 2

Nid yn arbennig, dim ond oherwydd fy mod i wedi bod yn gyffredinolwr erioed, er hyd yn oed o'r dechrau, mae'n debyg i mi ddechrau gyda maes botaneg.

00:13:01 Siaradwr 2

Rydw i'n meddwl am gynefinoedd y DU yn gyffredinol. Oherwydd rydw i wedi bod yn gwirfoddoli ers cryn dipyn o amser ac roedd gen i brofiad o sut mae cyrff cadwraeth yn rheoli cynefinoedd, gydag Ymddiriedolaeth Natur Avon. Byddwn i'n helpu gyda phrysgoedio, rheoli gwelyau cyrs, a phethau fel 'na.

00:13:16 Siaradwr 2

Felly roeddwn i wedi cael y profiad bywyd, i raddau.

00:13:19 Siaradwr 2

Mae yna broblem fach ym maes cadwraeth, efallai nad ydym bob amser yn cael ein harwain cymaint gan dystiolaeth ag y dylem.

00:13:24 Siaradwr 2

Rydym yn tueddu i gael ein harwain gan anecdotau neu rydym yn dilyn y patrymau a osodwyd gan ein rhagflaenwyr.

00:13:30 Siaradwr 2

Wyddoch chi, o'i gymharu â rhai sectorau, efallai nad ydym bob amser yn mynd yn ôl.

00:13:32 Siaradwr 2

Felly, roedd mynd yn ôl at y dystiolaeth, roedd hi'n braf deall y cefndir damcaniaethol y tu ôl i'r hyn roeddwn i eisoes wedi'i arsylwi ar lawr gwlad.

00:13:42 Siaradwr 2

Ond hynny yw, doedd gen i ddim awydd penodol i arbenigo.

00:13:47 Siaradwr 2

I'r gwrthwyneb, rydw i'n cofio eistedd yn fy narlith mycoleg yn fy mlwyddyn gyntaf, yn meddwl, pwy ar y ddaear sydd eisiau treulio oes gyfan yn astudio ffyngau, a oedd yn eironig iawn, o ystyried mai dyna ddewisais ei wneud ar gyfer fy noethuriaeth dair blynedd yn ddiweddarach.

00:13:58 Siaradwr 2

Felly, ie, gallaf ei alw'n gromlin ddysgu.

00:14:01 Siaradwr 2

Ond wn i ddim, po fwyaf o bethau rydych chi'n edrych arnyn nhw, maen nhw'n dod yn ddiddorol, onid ydyn nhw?

00:14:04 Siaradwr 2

Po fwyaf rydych chi'n edrych ar unrhyw beth, y mwyaf o ddiddordeb rydw i'n ei gael ynddo.

00:14:06 Siaradwr 2

Felly, ie, rydw i'n mynd i farw'n gyffredinolwr.

00:14:11 Siaradwr 1

Felly, a wnaethoch chi benderfynu aros a gwneud eich gradd ôl-raddedig eto oherwydd eich bod chi eisiau aros yn Aberystwyth?

00:14:17 Siaradwr 2

Wyddoch chi ei fod yn dod yn ôl at yr un peth o fod ychydig, wel, mae'n debyg yn rhannol creu cyfleoedd, ond yn rhannol yn lwc.

00:14:22 Siaradwr 2

Felly erbyn i mi fod yn nhrydydd flwyddyn fy ngradd israddedig, roeddwn i wedi gweithio dau neu dri thymor haf cyfan ar Ynys Skomer rhwng blynyddoedd y brifysgol, yn bennaf yn wirfoddoli, ond yn helpu'r ymchwilwyr.

00:14:36 Siaradwr 2

Felly roeddwn i wedi treulio un haf

00:14:39 Siaradwr 2

yn gweithio gyda Phrifysgol Durham, yn olrhain faint o bwysau roedd palod Manaw yn eu hennill.

00:14:43 Siaradwr 2

Ac roeddwn i'n byw yn yr anheddau ymchwil yno gyda myfyrwyr doethuriaeth o lawer o wahanol leoedd.

00:14:49 Siaradwr 2

A sylwais, er eu bod nhw'n cwyno ychydig am eu pwnc o bryd i'w gilydd, eu bod nhw'n cwyno'n amlach am wleidyddiaeth y brifysgol a phan nad oedd eu goruchwyliwr yn eu helpu.

00:15:00 Siaradwr 2

Ac yn Aberystwyth, roeddwn i eisoes wedi gweithio ychydig gyda Gareth Griffith, sef y mycolegydd yno, ac roeddwn i'n gwybod ei fod yn dda iawn i weithio gydag ef.

00:15:09 Siaradwr 2

Felly roedd hynny'n rhan fawr o fy mhenderfyniad ar y pryd.

00:15:13 Siaradwr 2

Mae'r pwnc yn ddiddorol, rydw i'n gwybod y gallaf weithio gyda Gareth, mae'n wych, mae'n gefnogol, mae'n frwdfrydig iawn am ei bwnc.

00:15:19 Siaradwr 2

Felly daeth popeth at ei gilydd.

00:15:22 Siaradwr 2

Yn wir.

00:15:23 Siaradwr 2

Ac rydw i'n dal i weithio gyda Gareth.

00:15:24 Siaradwr 2

Rydw i wedi gweithio gydag ef drwy fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth Natur.

00:15:26 Siaradwr 2

Rydw i'n dal i weithio gydag ef.

00:15:27 Siaradwr 2

Gweithiais gydag ef pan oeddwn yn Plantlife, ar fycoleog.

00:15:31 Siaradwr 2

Felly dyna fath o gysylltiad proffesiynol gydol oes rydw i wedi'i wneud, sydd wedi bod yn wych.

00:15:35 Siaradwr 1

Felly aethoch chi i'r brifysgol yn Aberystwyth ac yna rydych chi wedi gwreiddio yng Nghymru byth ers hynny.

00:15:43 Siaradwr 1

Beth sydd wedi gwneud i chi fod eisiau canolbwyntio eich gyrfa yma?

00:15:50 Siaradwr 2

Yn rhannol oherwydd bod yr ardal yn gyfarwydd i mi.

00:15:51 Siaradwr 2

Hynny yw, wrth i chi fynd trwy'r blynyddoedd, rydych chi'n dod i adnabod lleoedd.

00:15:56 Siaradwr 2

Roeddwn i wedi bod yn Aberystwyth ers cryn dipyn o flynyddoedd.

00:15:58 Siaradwr 2

Des i adnabod y cefn gwlad o gwmpas yno ac roeddwn i wedi meithrin rhwydwaith o bobl roeddwn i'n eu hadnabod. Roeddwn i'n deall y gwleidyddiaeth ranbarthol ychydig, ac mae'n debyg mai dyna oedd un o'r pethau oedd yn llywio'r penderfyniad. Ond weithiau dyna sut mae pethau yn troi mas.

00:16:13 Siaradwr 2

Dyna lle mae eich cryfderau mwyaf, dyna lle rydych chi'n tueddu i gael y cyfleoedd oherwydd bod gennych chi'r profiad hwnnw i'w gyfrannu pan fyddwch chi'n gwneud cais am swyddi.

00:16:20 Siaradwr 2

Ond rydw i'n meddwl fy mod i wedi bod wrth fy modd yma erioed.

00:16:24 Siaradwr 2

Mae ar ôl tyfu i fyny yn y ddinas ac eisiau gweithio mewn lle lle gallwch chi o hyd ... rydych chi'n gwybod bod bywyd gwyllt yn dirywio, rydych chi'n gwybod bod problemau, ond gallwch chi o hyd deimlo'r gobaith a'r cyfle.

00:16:37 Siaradwr 2

Ac rydw i'n credu ein bod ni wedi bod yn lwcus yn y gorffennol gyda Llywodraeth Cymru hefyd, ei bod o blaid yr amgylchedd o ran polisi.

00:16:45 Siaradwr 2

Wyddoch chi, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gefnogol

00:16:47 Siaradwr 2

dros fy ngyrfa i o leiaf.

00:16:51 Siaradwr 2

Felly mae llawer o bethau wedi dod at ei gilydd mewn gwirionedd.

00:16:54 Siaradwr 2

Rydw i wrth fy modd â'r lle.

00:16:57 Siaradwr 2

Yn amlwg, fe wnes i gyfarfod â'm gŵr yma hefyd yn ddiweddarach.

00:17:00 Siaradwr 2

Felly, ie, fe wnes i fwrw gwreiddiau yn eithaf cyflym.

00:17:03 Siaradwr 1

Ie, mae'n lle hyfryd i ymgartrefi yn sicr.

00:17:06 Siaradwr 1

Felly beth oedd eich profiad o ddechrau eich gyrfa ym maes cadwraeth byd natur yng Nghymru?

00:17:10 Siaradwr 1

Sut gawsoch chi eich troed yn y drws?

00:17:15 Siaradwr 2

Rydw i'n meddwl y byddwn i'n dweud nad oedd yn hawdd, ond mae'n debyg bod fy mhrofiad i'n haws na phrofiad llawer o bobl, yn rhannol oherwydd bod gen i'r profiad hwnnw y tu ôl i mi eisoes cyn i mi fod ar fin gorfod dod o hyd i swydd am resymau ariannol.

00:17:30 Siaradwr 2

Dydw i ddim yn meddwl i mi sylweddoli faint o ased fyddai'r profiad hwnnw ar y pryd.

00:17:34 Siaradwr 2

Fe wnes i e jyst oherwydd fy mod i eisiau ei wneud.

00:17:36 Siaradwr 2

Felly pan orffenais fy ngradd ôl-raddedig, roeddwn i'n ceisio

00:17:42 Siaradwr 2

aros yng Nghymru a chwilio am Gymru cyhyd ag y byddai fy arian yn para, math o beth.

00:17:46 Siaradwr 2

Gwneuthum ychydig mwy o waith gwirfoddol gydag Ymddiriedolaeth Natur Avon ym Mryste yn y cyfamser hefyd.

00:17:55 Siaradwr 2

Ac, ie, fe wnes i gais am lawer o swyddi na chefais fawr o siawns i'w cael ac rydw i'n cofio ar un adeg i mi wneud cais am swydd lle'r oeddwn i'n meddwl mai dyma'r swydd sy'n alinio orau â'm sgiliau y byddwn i'n dod o hyd iddi, o bosibl.

00:18:05 Siaradwr 2

Os na chaf y swydd hon, does dim siawns gen i.

00:18:08 Siaradwr 2

Cefais gyfweiliad ond wnes i ddim cael y swydd.

00:18:11 Siaradwr 2

Felly rydw i'n meddwl bod gan bob un ohonom y pwyntiau isel hynny lle rydych chi'n meddwl, dydw i byth yn mynd i gyrraedd unman gyda hyn, er gwaethaf fy mhrofiad.

00:18:17 Siaradwr 2

Mae yna bob amser y pethau hynny rydych chi'n eu gwneud, y profiadau sydd eu hangen arnoch chi, y fagl 22, y sefyllfa honno lle na allwch chi ennill – alla i ddim cael y profiad hwn nes i mi gael swydd ac alla i ddim cael swydd i ennill y profiad.

00:18:27 Siaradwr 2

Felly, ie, cefais i, ond yn fy achos i dim ond ychydig fisoedd oedd hi, wyddoch chi, sy'n eithaf byr o'i gymharu â llawer o bobl sydd eisiau gweithio ym maes cadwraeth.

00:18:35 Siaradwr 2

Ond yn y pen draw, cefais seibiant gyrfa gyda'r swydd dymhorol honno ar Ynys Skomer.

00:18:41 Siaradwr 2

Ac yna dim ond ychydig fisoedd ar ôl i hynny ddod i ben, fy swydd gyntaf, ac roedd yn swydd cyfnod penodol ar brosiect a ariannwyd gan y loteri gyda'r Ymddiriedolaeth Natur yng Ngheredigion.

00:18:50 Siaradwr 2

Ie, ac roeddwn i'n lwcus bod hynny wedi codi, ac yn lwcus fy mod i wedi cael y swydd oherwydd eu bod nhw'n fy adnabod, dwi'n meddwl, oherwydd roeddwn i wedi gwneud llawer o waith gyda nhw, roedd hynny wir wedi helpu.

00:18:58 Siaradwr 2

Ac mewn gwirionedd, wrth feddwl yn ôl, pan oeddwn i'n fyfyrwr yn Aberystwyth, un o'r pethau y gallwn i ei wneud oedd ymuno â'r Ymddiriedolaeth Natur – mae ganddi grwpiau gwirfoddoli lleol sydd â phwyllgorau mewn gwahanol rannau o'u hardal.

00:19:09 Siaradwr 2

Ac roedd grŵp gwirfoddoli lleol, fel y'i gelwid ar y pryd, yng ngogledd Ceredigion.

00:19:14 Siaradwr 2

Ac fe wnaethon nhw adael i mi ymuno â'i bwyllgor.

00:19:17 Siaradwr 2

Ac am flwyddyn, roeddwn i'n gadeirydd arno hefyd pan oeddwn i'n dal yn fyfyrwr, ac unwaith eto, roedden nhw'n dangos ffydd enfawr ynof i wneud hynny ar yr oedran hwnnw.

00:19:24 Siaradwr 2

Ond rhoddodd rywfaint o'r profiad gweithdrefnol hwnnw i mi a dealltwriaeth o sut roedd yr ymddiriedolaeth yn gweithio fel elusen, nid dim ond yr ochr gyflawni – ac rydw i'n meddwl bod hynny wedi helpu mwy na thebyg.

00:19:34 Siaradwr 2

Ie.

00:19:34 Siaradwr 2

Felly, ie, doedd hi ddim yn syml mynd i mewn i faes cadwraeth, ond rydw i'n meddwl bod y pethau hynny fel cysylltiadau personol a phrofiad lleol yn y pen draw wedi bod o fudd.

00:19:43 Siaradwr 2

Roeddwn i'n lwcus bod y swydd gywir wedi dod ar gael ar yr amser iawn – yr oll y gall unrhyw un ohonom ei wneud yw aros i'r sêr alinio ychydig i ni.

00:19:51 Siaradwr 1

Ie.

00:19:52 Siaradwr 1

Ac rydych chi wedi dweud o'r blaen y gall gwaith rheoli tir daflu'r annisgwyl atoch chi.

00:19:58 Siaradwr 1

Allwch chi ddweud wrthyf am gyfnod yn eich gyrfa pan efallai fod hyn wedi digwydd ac nad yw pethau wedi mynd yn hollol yn ôl y cynllun a sut wnaethoch chi lywio hynny?

00:20:05 Siaradwr 2

Rydw i'n meddwl fy mod i wedi gorfod wynebu rhai senarios anarferol iawn

00:20:13 Siaradwr 2

yn ystod fy ngyrfa ym maes rheoli tir, a rheoli tir ydyw o ddifrif, weithiau trwy brosiectau rydych chi'n ceisio'u gwneud ac weithiau trwy ymyriadau cwbl annisgwyl pobl eraill sy'n defnyddio'ch tir.

00:20:25 Siaradwr 2

Pethau na feddyliais i byth y byddwn i'n eu gwneud ym maes cadwraeth, felly dechreuais i weithio ym maes cadwraeth oherwydd fy nghariad at fywyd gwylt.

00:20:32 Siaradwr 2

Rydw i'n meddwl, efallai deng mlynedd yn ôl, roedd gen i ryw fath o gyfrifoldeb rheoli dros ynysoedd Sir Benfro, Ynys Skomer ac Ynys Skokholm,

00:20:39 Siaradwr 2

ac yna rydych chi'n sydyn yn poeni am y ffaith bod tanc carthion yn llawn ac nad oes gennych chi ffordd o'i wagio.

00:20:46 Siaradwr 2

Neu, rhywbeth fel y concrit sy'n cynnal tanc carthion, rydych chi'n poeni am ei oedran.

00:20:52 Siaradwr 2

Felly, wyddoch chi, mae gwaith rheoli safleoedd yn dod â'r holl fath hwn o seilwaith.

00:20:56 Siaradwr 2

Mae seilwaith yn codi pob math o broblemau.

00:20:59 Siaradwr 2

Neu mae eich da byw yn dianc.

00:21:01 Siaradwr 2

Felly, rydych chi'n cael galwad ffôn yn hwyr yn y nos gan rywun yn dweud, "Mae dŵr o'ch byfflo dŵr yn rhedeg i lawr y dreif ac ar ei ffordd i'r pentref, allwch chi wneud rhywbeth yn ei gylch?",

00:21:10 Siaradwr 2

felly rydw i'n meddwl mai dyna'r peth anhygoel am dir.

00:21:12 Siaradwr 2

Ac yna, rydych chi'n cael y pethau, sy'n llai braf efallai, ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol ar dir y mae'n rhaid i chi ymdopi â nhw.

00:21:19 Siaradwr 2

Dros y blynyddoedd, rydym wedi cael gweithgarwch troseddol yn digwydd ar warchodfeydd neu rydym wedi gorfod ymgysylltu â'r heddlu a phethau fel 'na.

00:21:25 Siaradwr 2

Felly rydw i'n meddwl, ac er nad yw'r holl bethau hynny'n dda, mae'r lefel honno o bethau nad oes eu disgwyl yn golygu, unwaith eto, hyd yn oed pan fyddwch chi wedi adnabod darn o dir ers deng mlynedd, gall rhywbeth annisgwyl ddigwydd o hyd.

00:21:37 Siaradwr 2

Ac mae hynny'n gymhelliant mawr o ddydd i ddydd.

00:21:40 Siaradwr 2

Felly rydw i'n meddwl, yn fwy nag unrhyw beth arall ym maes cadwraeth, bod tir yn dod â'r elfen honno o bethau nad oes modd eu rhagweld.

00:21:46 Siaradwr 1

Mae'n eich cadw chi ar flaenau eich traed.

00:21:47 Siaradwr 2

Mae wir yn eich cadw chi ar flaenau eich traed.

00:21:49 Siaradwr 1

Ac oes safle penodol – rydych chi wedi cael llawer o safleoedd dros eich gyrfa a llawer o brosiectau gwahanol – oes safle neu brosiect penodol sy'n dod i'r amlwg fwyaf?

00:22:01 Siaradwr 2

Byddaf yn dewis dau os caf ddewis dau.

00:22:03 Siaradwr 2

Felly rydw i wedi sôn am Ynys Skomer ychydig o weithiau eisoes.

00:22:06 Siaradwr 2

Mae hwnnw'n bendant yn dod i'r amlwg am y cyfleoedd a gefais yno.

00:22:10 Siaradwr 2

Roedd fy mam yn arfer mynd â ni pan oedden ni'n ifanc i aros dros nos a dechreuais wirfoddoli yno pan oeddwn i'n 16 oed ac rydw i'n credu bod hynny'n dod i'r amlwg oherwydd dyna lle wnes i ddod o hyd i fy llwyth mewn gwirionedd.

00:22:25 Siaradwr 2

Dyna lle cyfarfûm

00:22:26 Siaradwr 2

â llawer o fyfyrwyr sy'n gwirfoddoli ac roeddwn i'n gallu gweld beth roedden nhw'n ei wneud ac, ar ôl bod yn *nerd* llwyr yn yr ysgol oedd â diddordeb mewn bywyd gwyllt nad oedd neb arall â diddordeb ynddo, yn sydyn roedd yna lwyth o bobl debyg.

00:22:40 Siaradwr 2

Rydw i fel, "Waw, nid fi yw'r unig *nerd* sy'n hoffi bywyd gwyllt."

00:22:43 Siaradwr 2

Felly rydw i'n meddwl bod hwnnw'n brofiad gwirioneddol ffurfiannol a dysgais gymaint yno.

00:22:49 Siaradwr 2

Felly o safbwynt hunanol, mae'n debyg y byddwn i'n dewis Ynys Skomer.

00:22:54 Siaradwr 2

O safbwynt cadwraeth, byddwn i'n dewis Gwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel yn Sir Gaerfyrddin, sef safle a gymerodd yr Ymddiriedolaeth Natur rheolaeth ohono tua 2013.

00:23:05 Siaradwr 2

Nid oherwydd fy mod i wedi ymwneud ag ef llawer yn bersonol, ond oherwydd bod ganddo hanes mor hir o fod dan fygythiad oherwydd gwaith chwarela.

00:23:11 Siaradwr 2

Roedd ymgyrchoedd enfawr y bu'r Ymddiriedolaeth Natur a llawer o rai eraill a llawer o drigolion lleol yn rhan ohonynt i geisio ei achub yn y 1990au.

00:23:19 Siaradwr 2

Fe'i rheolwyd am amser hir gan yr Ymddiriedolaeth Glaswelltiroedd cyn iddi ddod i ben yn anffodus fel elusen ac yna cymerodd yr Ymddiriedolaeth Natur reolaeth dros y tir fel gwarchodfa natur yn 2013.

00:23:27 Siaradwr 2

Felly, rydw i'n credu bod Carmel yn safle arwyddocaol i mi oherwydd hanes y sefydliad, a'r ffaith ei fod yn stori anhygoel am safle a oedd yn bwysig i fywyd gwyllt, a oedd yn cael ei beryglu gan ddatblygu a allai fod wedi bod yn ddinistriol, ac a gafodd ei achub. Ac i allu mynd i'r safle nawr

00:23:49 Siaradwr 2

a gweld y gwaith y mae'r ymddiriedolaeth wedi'i wneud yno i adfer y dolydd, neu i barhau â'r gwaith o adfer y dolydd, gan weithio gyda phartneriaid, mae'n teimlo fel ymgorfforiad o'r hyn y gall gwaith rheoli tir er cadwraeth ei gyflawni, sy'n wirioneddol werth chweil ac yn rhoi gobaith i chi.

00:24:05 Siaradwr 1

Ie, mae honno'n stori lwyddiant eithaf anhygoel yng Ngharmel, mewn gwirionedd.

00:24:08 Siaradwr 1

Ie.

00:24:09 Siaradwr 1

A beth fyddech chi'n ei ddweud, wrth fyfyrrio ar eich gyrfa, beth fyddech chi'n ei ddweud yw eich cyflawniad mwyaf

00:24:17 Siaradwr 1

ar gyfer cadwraeth byd natur yng Nghymru?

00:24:19 Siaradwr 2

Mae hwnnw'n gwestiwn anodd iawn.

00:24:21 Siaradwr 2

Rydw i'n meddwl y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn meddwl bod hwnnw'n gwestiwn anodd.

00:24:23 Siaradwr 2

Wyddoch chi, gallwch chi hawdd ddewis pethau fel y safleoedd y gwnaethoch chi helpu i'w gwarchod ar gyfer cadwraeth neu'r prosiectau mawr rydych chi wedi'u gwneud.

00:24:36 Siaradwr 2

Felly, rydw i'n meddwl, mae'n debyg fy mod i wedi ymwneud cryn dipyn â Phrosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru am amser hir ac wedi gwneud llawer o waith codi arian a rheoli prosiectau yno a helpodd

00:24:46 Siaradwr 2

i sefydlu ymrwymiad hirdymor, rydych chi'n gwybod beth rydw i'n ei olygu, o'r ardal honno i gadwraeth gwiwerod coch.

00:24:54 Siaradwr 2

Felly mae yna ychydig o bethau rydw i'n myfyrio arnyn nhw ac yn meddwl, os ydych chi'n meddwl o ddifrif am yr hyn sydd wedi digwydd yno, rydych chi'n meddwl, waw, ie, mewn gwirionedd rydw i'n falch o fy nghyfraniad at hynny, mae'n debyg.

00:25:05 Siaradwr 2

Yn realistig, rydw i'n meddwl yn y tymor hir mai'r hyn rydw i wir fwyaf hapus amdano yw'r cyfleoedd rydw i wedi'u cael i gefnogi pobl eraill.

00:25:14 Siaradwr 2

Ac rydw i'n cofio siarad ar ddechrau fy ngyrfa â Phrif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth Natur arall a ddywedodd rywbeth tebyg iawn.

00:25:19 Siaradwr 2

Rydw i'n meddwl, yn enwedig wrth i chi fynd i rôl reoli sy'n eich mynd â chi ychydig yn fwy i ffwrdd o'r rheng flaen, gallwch chi weld, pan gewch chi'r cyfle i helpu rhywun i fyni'r ysgol yrfa neu i gefnogi rhywun sydd ar ddechrau ei yrfa neu i gefnogi gwirfoddolwyr a rhoi ychydig bach o help iddyn nhw, y math o sgil-ffaith o wneud yr amser i wneud hynny ac rydych chi o gwmpas yn ddigon hir i weld beth mae'r bobl hynny'n mynd ymlaen i'w wneud.

00:25:44 Siaradwr 2

Mae hynny'n anhygoel.

00:25:46 Siaradwr 2

Mae yna bobl sy'n gweithio'n broffesiynol yn y sector academaidd nawr ym maes cadwraeth, ac rydw i'n cofio eu helpu pan oedden nhw'n eu harddegau ac yn gofyn, "Beth yw hyn?"

00:25:53 Siaradwr 2

Neu roedden nhw'n rhan o grŵp gwyllo ac fe ddaethon nhw allan ar ymweliad â safle.

00:25:56 Siaradwr 2

Ac, ie, rydw i'n meddwl bod hynny siŵr o fod, o ran effaith yn y tymor hir, yr effaith sydd gennych chi ar bobl eraill, ychydig yn drech na'r effaith y gallwch chi ei chael mewn gwirionedd ar gadwraeth fel unigolyn.

00:26:09 Siaradwr 1

Ie.

00:26:10 Siaradwr 1

Yn y cywair hwnnw o helpu pobl ar eu camau cyntaf, i unrhyw un sy'n gwranddo yn ôl ar y cyfweliad hwn sy'n ceisio cael eu swydd gyntaf ym maes cadwraeth, oes gennych chi un darn o gyngor y byddech chi'n ei roi iddyn nhw?

0:26:23 Siaradwr 2

Byddai ddau gen i.

00:26:26 Siaradwr 2

Felly rydw i'n meddwl mai'r un llai o bosibl yw peidiwch â digalonni pan nad yw'n digwydd, oherwydd mae'r cyfle cyntaf hwnna oherwydd lwc cymaint ag y mae oherwydd chi.

00:26:37 Siaradwr 2

Felly dyfalbarhewch.

00:26:39 Siaradwr 2

Ond o ran cyngor mwy cynhyrchiol, rydw i'n meddwl bod adeiladu eich rhwydwaith o gysylltiadau yn wirioneddol bwysig.

00:26:47 Siaradwr 2

Dod i adnabod pobl, siarad â phobl, meithrin perthnasoedd â phobl sydd eisoes yn gweithio mewn gwahanol rannau o faes cadwraeth, oherwydd ei fod yn gwneud cymaint o bethau.

00:26:58 Siaradwr 2

Mae maes cadwraeth yng Nghymru yn gymuned eithaf bach o bobl ac rydym i gyd, rydym i gyd yn cefnogi ein gilydd.

00:27:04 Siaradwr 2

Ac mae hynny'n parhau drwy gydol eich gyrfa fel y bydd y perthnasoedd rydych chi'n eu meithrin o fudd i'r ddwy ochr am weddill eich gyrfa.

00:27:10 Siaradwr 2

Ond bydd hefyd yn rhoi'r persbectif gwahanol hwnnw i chi.

00:27:13 Siaradwr 2

Mae pobl eraill yn edrych ar gadwraeth a phroblemau mewn ffyrdd gwahanol ac, os ydych chi'n cael eich swyno gan adar ond eich bod chi'n cysylltu â botanegwyr ac yn meithrin perthnasoedd â nhw, byddwch chi'n dysgu gweld pethau o ongl wahanol ac mae hynny bob amser yn ddefnyddiol.

00:27:26 Siaradwr 2

A does dim dwywaith amdani ...

00:27:29 Siaradwr 2

Mae hefyd yn wir, os yw pobl yn eich adnabod chi ac yn gwybod beth rydych chi'n ei hoffi, byddan nhw'n eich cofio chi, os cewch chi eich cyfweld ganddyn nhw.

00:27:36 Siaradwr 2

Rydw i'n meddwl mai dyna sut mae'r byd yn gweithio.

00:27:38 Siaradwr 2

Mae'n wirioneddol bwysig.

00:27:41 Siaradwr 2

Ac rydw i'n credu hefyd, os ydych chi'n cysylltu â phobl ac yn adeiladu'r rhwydweithiau personol hynny, mae'n dangos eich bod chi'n rhagweithiol.

00:27:47 Siaradwr 2

Cadwraeth, mae'n rhaid i chi gael rhywfaint o ... mae'n rhaid i chi fod yn dipyn o unigolyn mentrus.

00:27:52 Siaradwr 2

A phan fyddwch chi'n cysylltu â phobl i feithrin perthnasoedd â nhw, rydych chi'n dangos hynny.

00:27:56 Siaradwr 2

Felly rydw i'n meddwl bod dod i adnabod pobl a gweithio gyda gwahanol sefydliadau a cheisio darganfod pwy sy'n gwneud beth a cheisio deall safbwyntiau pobl eraill yn bwysig iawn.

00:28:07 Siaradwr 1

Ie, eto, ie, rhwydweithio ym maes cadwraeth, ac rydw i'n siŵr yn y rhan fwyaf o swyddi ei bod hi'n bwysig dod o hyd i'ch ffordd i'r maes.

00:28:17 Siaradwr 1

Felly fy nghwestiwn olaf yn y cyfweiliad yw

00:28:23 Siaradwr 1

un am ddyfodol maes cadwraeth a bywyd gwyllt yng Nghymru.

00:28:28 Siaradwr 1

Ac roeddwn i'n meddwl tybed beth sy'n gwneud i chi deimlo fwyaf gobeithiol am ddyfodol cadwraeth byd natur a bywyd gwyllt yng Nghymru?

00:28:36 Siaradwr 2

Ie, rydw i'n meddwl ei bod hi'n beth anodd bod yn gadwraethwr oherwydd eich bod chi wedi'ch amgylchynu drwy'r amser gan dystiolaeth sy'n eich gwneud chi'n besimistaidd.

00:28:45 Siaradwr 2

Ond ni allwch barhau oni bai eich bod yn optimistaidd yng ngwyneb llawer iawn o dystiolaeth i'r gwrthwyneb.

00:28:51 Siaradwr 2

Felly rydw i'n meddwl bod unrhyw un ym maes cadwraeth, nid yw'n amser da ar hyn o bryd, polisi, arian, y negeseuon sy'n dod allan o lywodraethau o bob lliw, pleidiau o bob lliw, yn llai o blaid yr amgylchedd nag yr ydym wedi'i weld ers tro byd.

00:29:07 Siaradwr 2

Ond rydw i'n meddwl, er gwaethaf hynny i gyd, mai'r peth sy'n fy annog i mewn gwirionedd yw'r llawenydd llwyr rydych chi'n ei weld ar wynebau pobl

00:29:16 Siaradwr 2

pan fyddan nhw'n cael profiad da iawn o fywyd gwyllt – plant bob amser, ond gall ddigwydd gydag oedolion hefyd.

00:29:22 Siaradwr 2

Pan fyddwch chi'n gweithio gyda phlant ac maen nhw wrth eu bodd eu bod nhw wedi dod o hyd i fwydyn yn y mwd ac maen nhw'n ei godi ac yn rhoi enw iddo, neu'n aml pan fyddwch chi ar yr arfordir efallai ac rydych chi'n gweld rhai llamhidyddion neu ddolffiniaid ac yn eu dangos i rywun nad oedd yn gwybod bod gennym ni deulu'r morfil ar arfordir Cymru –

00:29:39 Siaradwr 2

yr ymateb hwnnw, pan fydd eu llygaid yn goleuo, rydych chi'n meddwl am y cariad hwnnw at werth cynhenid bywyd gwyllt.

00:29:46 Siaradwr 2

Rydyn ni'n treulio llawer o amser yn siarad yn broffesiynol am werth ariannol bywyd gwyllt neu sut mae'n cefnogi systemau dynol, oherwydd dyna un o'r offer sydd gennym ni i geisio perswadio llywodraethau bod rhywbeth yn bwysig.

00:29:59 Siaradwr 2

Ond i allu gweld y math yna o gariad at werth cynhenid rhywbeth anhygoel pan fyddwch chi'n siarad â phobl,

00:30:06 Siaradwr 2

mae hynny'n golygu y bydd y conglfeini hynny yno bob amser.

00:30:09 Siaradwr 2

Dyna'r bobl a fydd yn mynd ati i amddiffyn ein bywyd gwyllt.

00:30:12 Siaradwr 2

Felly rydw i'n meddwl y ffaith, hyd yn oed pan mae pethau'n teimlo'n dywyll iawn, y ffaith y gallwch chi fynd â phlant allan a byddan nhw'n cyffroi am bryfed bach yn y mwd, ie, dyna'r dyfodol, onid e?

00:30:22 Siaradwr 2

Felly rydw i'n meddwl mai dyna'r peth sy'n rhoi'r gobraith mwyaf i mi, yn enwedig pan nad yw pethau eraill yn teimlo mor optimistaidd.

00:30:28 Siaradwr 1

Dyna ffordd hyfryd o orffen y cyfweiliad ac mae wedi bod yn hyfryd siarad â chi a chlywed eich stori am eich gyrfa gadwraeth yng Nghymru a diolch i chi am eich amser.

00:30:39 Siaradwr 2

Diolch yn fawr.